# DISGRIFIAD SWYDD: CANGHELLOR

Canghellor Prifysgol Aberystwyth yw pennaeth seremonïol y Sefydliad ac fe'i penodir gan Gyngor y Brifysgol. Mae'r Canghellor yn cyflawni nifer o swyddogaethau yn rhinwedd ei safle seremonïol, yn unol â'r hyn a bennir gan y Cyngor.

| | |
|---|---|
| **CYFNOD Y SWYDD:** | Pum mlynedd, gyda'r posibiliad o ailbenodi am ail gyfnod o hyd at bum mlynedd. |
| **YMRWYMIAD AMSER:** | Lleiafswm o 6 niwrnod yn Aberystwyth. Dylai'r Canghellor arddangos ymrwymiad parhaus i Brifysgol Aberystwyth trwy gydol y flwyddyn. |
| **TÂL:** | Nid oes tâl ynghlwm wrth y swydd hon. Er hynny, mae modd hawlio mân-dreuliau yn ôl os bu'n rhaid gwario wrth gyflawni dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r swydd. |
| **DULL PENODI:** | Y Cyngor sy'n penodi, ar sail argymhelliad y Pwyllgor Dewis. |

## DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Bydd y Canghellor yn:

1. Llywyddu dros Gynulliadau Graddio'r Brifysgol.
2. Cadeirio cyfarfodydd blynyddol Llys y Brifysgol.
3. Arddel ymrwymiad personol cryf i Addysg ac i amcanion, uchelgais a gwerthoedd Prifysgol Aberystwyth.
4. Ceisio meithrin perthynas adeiladol a chefnogol â'r Dirprwy Gangellorion, y Trysorydd a Chadeirydd y Cyngor, yn ogystal â holl aelodau eraill y Cyngor, yr Is-Ganghellor, Clerc y Cyngor, a'r tîm. Er hynny, rhaid i'r Canghellor hefyd gydnabod y rhaniad priodol rhwng ei safle anrhydeddus o ran arweinyddiaeth, llywodraethiant a rheolaeth weithredol.
5. Cyflawni gweithgareddau llysgenhadol ar ran y Brifysgol a dylanwadu rhanddeiliaid allweddol, fel bo'n ofynnol.
6. Mae ymrwymiad i ddyletswydd y Brifysgol i hyrwyddo ac annog defnydd o'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ofynnol. Bydd angen i'r Canghellor siarad Cymraeg a Saesneg yn nigwyddiadau'r Brifysgol. Cânt yr holl wybodaeth a'r gefnogaeth angenrheidiol gan y Brifysgol i allu cyflawni'r swyddogaeth hon yn effeithiol.

Sylwer nad yw'r rhestr uchod, ac na fwriedir iddi fod, yn ddisgrifiad cyflawn o'r dyletswyddau. Amlinellir rhagor o wybodaeth am y broses benodi ar gyfer rôl y Canghellor yn Ordinhad 2.

## GWRTHDARO BUDDIANNAU

Bydd yn ofynnol i'r sawl a benodir neu a ailbenodir yn Ganghellor Aberystwyth ddatgelu, cyn ei benodi neu ei phenodi, unrhyw wybodaeth a allai fod yn berthnasol i swydd y Canghellor, pe penodid ef neu hi. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw fuddiant, yn ariannol neu fel arall, sy'n debygol,

neu y gellid ei ystyried yn debygol, o amharu ar grebwyll annibynnol yr unigolyn. Rhaid datgelu gwybodaeth o'r fath i'r Cyngor adeg penodi neu ailbenodi'r unigolyn.

## CEISIADAU

Gwahoddir ceisiadau ar hyn o bryd i lenwi swydd wag sydd yn yr arfaeth ar gyfer Canghellor Prifysgol Aberystwyth o 01 Ionawr 2025. Dylai'r ceisiadau nodi profiad yr unigolyn a pham y mae'n addas i'w benodi neu ei phenodi, a chyflwyno'r rhain i Ysgrifennydd y Brifysgol, ynghyd â CV, erbyn **12:00pm, 23 Medi 2024.**

### CYDRADDOLDEB AC AMRYWIOLDEB

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i hybu cydraddoldeb ac amrywioldeb, ac mae'n ymdrechu i fod yn gynhwysol, a gwerthfawrogi amrywioldeb y staff, y myfyrwyr a'r gymuned.

Lle y bo hynny'n berthnasol, gwneir yr holl addasiadau rhesymol er mwyn i'r sawl a benodir allu cyflawni'r dyletswyddau'n effeithiol.

### CYNEFINO

Trefnir rhaglen gynefino i'r sawl a benodir, wedi'i theilwra i ofynion yr unigolyn, er mwyn sicrhau bod gan y sawl a benodir ddealltwriaeth dda o werthoedd, nodau ac amcanion Prifysgol Aberystwyth.

Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg

Uned Llywodraethiant
Prifysgol Aberystwyth
Penglais
Aberystwyth
SY23 3BF

01970 62 2114

saastaff@aber.ac.uk